# Nodiadau i Athrawon – Pecyn Cyngor yr Ysgol

| Nod | Gweithgaredd | Adnoddau | Nodiadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| Cyflwyniad - Sefydlu Cyngor Ysgol | | | |
| Sefydlu Cyngor Ysgol | | Taflen Esboniadol | Taflen wybodaeth i athrawon ynglŷn â sut i sefydlu Cyngor Ysgol |
| Pethau i'w cofio | | Taflen Esboniadol | Nodiadau i athrawon ar rai o'r pethau pwysicaf i'w cofio wrth sefydlu a rhedeg Cyngor Ysgol |
| Deall Democratiaeth a phleidleisio ( dosbarth cyfan) | | | |
| Deall Democratiaeth | Darllen pwyntiau am ddemocratiaeth<br><br>Nodi pwyntiau o blaid ac yn erbyn<br><br>Chwilio am | Taflen waith<br><br>Taflen waith<br><br>Papurau newydd | Bydd y plant yn dod yn gyfarwydd â'r hyn a olygir wrth y term democratiaeth<br>Byddant yn trafod pa fath o gymdeithas rydym yn byw ynddi a pha bwyntiau sy'n profi hynny<br>Deall beth yw rôl ei cynghorydd lleol a Aelodau Cynulliad<br><br>Trafod ac ysgrifennu pwyntiau o blaid democratiaeth ac unbennaeth<br><br>Darllen trwy erthyglau papurau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | enghreifftiau o ddemocratiaeth yn y gymuned | Taflen gofnodi | newydd i gael enghreifftiau o ddemocratiaeth yn y gymdeithas<br>Nodi sut y mae democratiaeth yn gweithio yn y sefyllfaoedd hyn |
| Pleidleisio | Taflen Waith i ddangos beth mae'r plant yn ei ddeall am bleidleisio<br><br>Taflen waith i fynegi barn am ddulliau gwahanol o bleidleisio<br><br>Darllen y manylion am drefniadau pleidleisio a thrafod eu barn am y trefniadau hyn | Taflen waith<br><br>Taflen waith<br><br>Taflen waith/ Trafodaeth | Gall y plant ateb y cwestiynau i ddangos beth maen nhw'n ei ddeall am bleidleisio ac os ydyn nhw erioed wedi pleidleisio dros unrhyw beth<br><br>Mynegi barn am wahanol ddulliau pleidleisio gan nodi pwyntiau da / drwg amdanynt<br><br>Cyfle i drafod a mynegi barn gan wrando ar bobl eraill ac ymateb i wahanol safbwyntiau<br>Cyfle i gynnal pleidlais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ( dosbarth cyfan) | | | |
| Cyfarfodydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Darllen a deall | Taflen wybodaeth a chwestiynau | Taflen wybodaeth ynglŷn â threfn cyfarfodydd yn y Cynulliad<br>Cwestiynau i'w hateb ynlgŷn â'r darn |
| Rheolau | Cardiau i'w dosbarthu | Cardiau | Cardiau i'w dosbarthu er mwyn sefydlu rheolau cyfarfodydd<br>Mae'n gyfle i weld a yw'r holl blant yn cytuno ar beth yw ymddygiad derbyniol yn ystod cyfarfodydd<br>Dylent gael amser i drafod unrhyw bwyntiau nad yw pawb yn cytuno arnynt |
| | Edrych ar y we am reolau cyfarfodydd, sut i drefnu cyfarfod a chwestiynau i'w gofyn i Aelodau Cynulliad | Taflen waith | Gwaith ymchwil am reolau'r Cynulliad<br>Trafod cyfarfodydd y Cynulliad a pha reolau sydd gan gyngor yr ysgol |
| Fy Ngwaith | Cymharu cyfrifoldebau Cyngor yr Ysgol â rhai yn y | Taflen waith | Cwblhau y 4 sgwar gwag |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynulliad | | |
| Dyletswyddau Cyngor Ysgol | | | |
| Cynghorydd ysgol effeithiol | Darllen a thrafod Beth sydd yn gwneud Aelod Cynulliad effeithiol? | Taflen wybodaeth<br>Taflen Aelod Cynulliad effeithiol | Darllen y wybodaeth am sut i fod yn gynghorydd effeithiol<br>Cwblhewch y daflen waith am beth sydd yn gwneud Aelod Cynulliad effeithiol |
| Rhannu Dyletswyddau | Cwblhau holiadur | Holiadur | Holiadur i weld pa swyddi y byddai'r plant sydd wedi'u hethol yn hoffi'u gwneud |
| Swyddi gyda Chyngor yr Ysgol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru | Penodi aelodau'r Cyngor i swyddi. Cynllunio murlun ar gyfer arddangosfa yn yr ysgol er mwyn dangos llun o bob aelod o'r cyngor a beth yw ei dyletswyddau<br><br>Cyfateb y cerdyn gwybodaeth am | Cardiau cyfateb | Gall y plant ddangos a ydyn nhw'n deall y gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau o ran swyddi o fewn Cyngor yr Ysgol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru<br><br>Mae rhai o'r cardiau yn wag er mwyn iddynt ychwanegu unrhyw swyddi maen nhw'n gweld yn bwrpasol ond nad ydynt eisoes wedi'u rhestru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | swyddi yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Aelod cywir | | |
| Swyddi yn y Cabinet | Cyfateb cardiau o wynebau'r cabinet i'w cyfrifoldebau | Cardiau cyfateb | Deall y cysylltiad rhwng swyddogaethau Cyngor yr Ysgol a swyddogaethau Gweinidogion y Cynulliad Cenedlaethol<br>Mae gan bob un rôl benodol a dyletswyddau unigol yn y Cynulliad<br>Gallen nhw ddefnyddio www.cynulliadcymru.org er mwyn eu helpu i ddod o hyd i'r atebion |
| Pynciau trafod Cyngor yr Ysgol | | | |
| Cynnal Dadl | | | Ymarferion trafod a mynegi barn<br>Gall y Cyngor ymarfer trafod, mynegi barn ac anghytuno wrth ddarllen trwy rai o'r sefyllfaoedd |
| Diogelwch ar y ffyrdd | Trafod diogelwch ar y ffyrdd.<br>Trafod trefniadau teithio i'r ysgol | Holiadur | Gweithgaredd i ddangos bod cyfle i Gyngor yr Ysgol weithio ar sawl agwedd ar fywyd yr ysgol y tu allan a'r tu mewn iddi<br>Mae'r weithgaredd yn rhoi cyfle i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pwyntiau gweithredu'r Holiadur | | plant edrych ar broblemau amgylcheddol ehangach sy'n effeithio ar yr ysgol<br>Gallant gwblhau holiadur i ddarganfod beth yw teimladau plant yr ysgol ynglŷn â theithio i'r ysgol – yna gellir penodi gwahanol bobl ar y Cyngor i weithredu yn ôl yr angen |
| Cadw'n Ddiogel | Trafod gyda'r disgyblion a'r athrawon pa fath o ddamweiniau yw'r rhai mwyaf cyffredin yn yr ysgol – dylunio poster i geisio lleihau nifer y damweiniau yn yr ysgol | Taflen waith<br><br>Poster | Cyngor i drafod canlyniadau eu gwaith ymchwil<br>Cynllunio strategaeth i leihau nifer y damweiniau yn yr ysgol<br>Creu posteri i'w harddangos |
| Gwm cnoi | Trafod a mynegi barn o blaid ac yn erbyn | Taflen waith o blaid/ yn erbyn | Er mwyn magu hyder a gwella sgiliau dadlau rhwng Aelodau'r Cyngor, cynnal trafodaeth ar broblemau gwm cnoi yn eu hardal leol<br>Nodi syniadau o blaid / yn erbyn codi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Trafod sylwadau gwahanol bobl a'u dosbarthu<br><br>Cofnodi barn am wahanol strategaethau i ymdrin a'r broblem | Cardiau sylwadau<br><br>Taflen waith | pris gwm cnoi<br><br>Darllen sylwadau gwahanol bobl ynglŷn â'r broblem a thrafod eu syniadau – rhannu'r sylwadau yn gategoriau<br><br>Mynegi barn |
| Ailgylchu | Taflen wybodaeth a chwis | Manylion am ailgylchu<br>Cwis ailgylchu – Pa mor wyrdd ydych chi? | Cynnal cwis yn y dosbarth i weld beth mae'r plant yn ei wneud ar hyn o bryd i helpu'r amgylchedd.<br>Fel cyngor trafod ble mae'r gwendidau yn y trefniadau ailgylchu / helpu'r amgylchedd a threfnu ymgyrch / prosiect i wneud mwy |
| Sbwriel | Trafod problemau sbwriel yn yr ysgol ac o amgylch yr ysgol | Taflen drafod | Trafod fel cyngor beth yw'r prif broblemau gyda sbwriel yn yr ardal<br>Pa fath o brosiectau y gall y Cyngor eu dechrau i ddatrys y broblem?<br>Creu posteri, codi ymwybyddiaeth, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | codi arian am fwy o finiau ac ati |
| Hawliau | Cynnal cwis ar *Hawliau* i weld beth mae'r plant yn ei wybod am hawliau cyfreithlon o ran oedran | Cwis | Trafod ymhellach a yw'r oedrannau hyn yn deg<br>A yw'n deg eich bod chi'n gallu priodi cyn i chi allu pleidleisio? |
| Amser Chwarae | Nodi pa adnoddau chwarae sydd yn yr ysgol<br>Trafod sut i wella cyfleusterau'r ysgol | Taflen Waith<br>Poster<br><br>Poster | Fel cyngor, trafod pa fath o adnoddau y byddai plant yr ysgol am eu gweld ar y maes chwarae ac os oes modd gwneud trefniadau i brynu rhagor o adnoddau/ datblygu rhai o'u syniadau<br>Cynnal pleidlais<br>Cynllunio poster gan gynnwys y syniadau gorau<br>Creu poster yn atgoffa'r plant i gadw'r ardal yn lân, yn ddiogel ac yn hapus |
| Gwerthuso Cyngor yr Ysgol | | | |
| Taflenni Gwerthuso | Cwblhau'r taflenni | Taflen werthuso ( un ar gyfer staff ac un ar gyfer disgyblion) | Gwerthuso pa mor effeithiol y mae'r Cyngor |